# Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol

## Swyddfa Archwilio Cymru a Chyngor Gwynedd


**Blwyddyn archwilio:** 2011

**Cyhoeddwyd:** Tachwedd 2011

**Cyfeirnod y ddogfen:** 558A2011

# Statws yr adroddiad

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Anthony Barrett o Swyddfa Archwilio Cymru a Dewi Morgan o Gyngor Gwynedd

**Statws yr adroddiad** Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Swyddfa Archwilio Cymru a Chyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Protocol ar y Cyd** | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Cefndir | 4 |
| Amcan | 7 |
| Dull Archwilio | 7 |
| Y ffordd ymlaen | 9 |
| **Atodiadau** | |
| Cynllun Gweithredu | 11 |

# Protocol ar y cyd

## Cyflwyniad

1. Mae'r Protocol hwn yn pennu'r gydberthynas waith rhwng archwilwyr Mewnol ac Allanol Cyngor Gwynedd (y Cyngor). Fframwaith ydyw sy'n seiliedig ar yr egwyddorion archwilio a reolir ac felly nid yw'n benodol i unrhyw flwyddyn archwilio benodol. Mae'r rhesymau dros ddogfennu'r gydberthynas hon fel a ganlyn:
   - adlewyrchu cyfrifoldebau a threfniadau gwaith gwahanol y ddwy swyddogaeth;
   - ffurfioli meysydd penodol lle y bydd trefniadau cydweithredu a chymorth dwyffordd ar waith, a thrwy hynny ddefnyddio'r holl adnoddau archwilio sydd ar gael yn effeithiol;
   - darparu fframwaith ar gyfer datblygu'r broses flynyddol o gynllunio archwiliadau yn effeithiol;
   - dangos y ffordd broffesiynol y mae'r ddau sefydliad yn cydweithio i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor gyda'r nod o wella amgylchedd Rheolaeth Fewnol y Cyngor.

## Cefndir

2. Swyddfa Archwilio Cymru yw archwilwyr allanol penodedig y Cyngor. Mae Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu'r Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn nodi sut mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad allanol.
3. Swyddogaeth fewnol yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ac, o dan Gyfansoddiad y Cyngor (y Rheolau Gweithdrefn Ariannol), cyn belled ag y bo'n ymarferol, dylid ei chyflawni unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwiliad Mewnol mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yw'r 'Pennaeth Archwilio Mewnol' dynodedig yn unol â'r Cod Ymarfer. Diwygiwyd ac ailgyhoeddwyd cod CIPFA ar gyfer Archwiliad Mewnol yn ystod 2006.
4. Bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol fel arfer yn uniongyrchol atebol i'r Pennaeth Cyllid. Fodd bynnag, gall y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd fod yn atebol i'r y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, a chael mynediad atynt, os yw o'r farn bod hyn yn angenrheidiol o dan amgylchiadau eithriadol.
5. Mae Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol am gytuno ar drefniadau gwaith i sicrhau dulliau cydweithredu effeithiol a defnydd effeithlon o adnoddau yn seiliedig ar drefniadau cyfathrebu, trafod a rhannu gwybodaeth rheolaidd. Nod Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yw sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gael budd o'r defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau archwilio. Mae ffurfioli trefniadau ar y cam hwn yn sicrhau y caiff y nod hwn ei gyflawni drwy sicrhau bod yr archwiliad yn cadw ei ffocws ac yn parhau i fod yn berthnasol i ofynion a risgiau newidiol y Cyngor.

## Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu'r Archwilydd Cyffredinol

6. Mae'r Cod yn adlewyrchu cwmpas Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a sefydlodd Swyddfa Archwilio Cymru i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i ddarparu cyfundrefn â chylch gwaith ar draws ystod eang o wasanaethau cyhoeddus a chyfle i gyflawni swyddogaethau archwilio ac arolygu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig ac effeithiol.
7. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd ati i deilwra cwmpas, graddfa, natur ac ymddygiad ei gwaith i amgylchiadau'r Cyngor fel y caiff yr ymdrech archwilio ac arolygu ei chyfeirio at y meysydd sy'n peri'r risg fwyaf. Cyflawnir hyn drwy gynllunio'n seiliedig ar risg.
8. Fodd bynnag, mae'r Cod yn pwysleisio nad yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu mewn ffordd sy'n eithrio'r Cyngor rhag cyflawni ei gyfrifoldebau ei hun o ran rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau y cynhelir ei fusnes yn unol â'r gyfraith a safonau priodol ac y caiff arian cyhoeddus ei ddiogelu, y rhoddir cyfrif priodol amdano, ac y caiff ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.
9. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru sefydlu trefniadau cydweithredu effeithiol gyda'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a cheisio dibynnu ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol hyd yr eithaf lle y bo'n bosibl.
10. Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol.
11. Bydd adolygiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn nodi i ba raddau y mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ymdrin â systemau ariannol pwysig fel y gyflogres neu daliadau credydwyr. Pan fydd Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn bod angen rhoi sylw pellach i hyn a chan ddibynnu ar ganlyniad ei hasesiad risg cyffredinol, bydd angen iddi ystyried a yw'r gwendidau canlyniadol yn yr amgylchedd rheoli cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol iddi gynnal profion ychwanegol at ddibenion barn.
12. Fodd bynnag, fel arfer ni ddisgwylir i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal profion cydymffurfio manwl na phrofion sylweddol ar systemau ariannol pwysig eraill oni bai bod ei hasesiad risg yn awgrymu nad yw'r prosesau craidd yn ddibynadwy.
13. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno adroddiad ar drefniadau'r Cyngor, ond ni fydd yn rhaid iddi wneud rhagor o waith o reidrwydd lle yr ystyrir bod y trefniadau hynny'n annigonol.

14. Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ofynion newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol (o dan adran 18) er mwyn pennu a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella (o dan adran 17). Caiff prif allbwn y gwaith hwn ei nodi mewn adroddiad Gwella Blynyddol.

## Cod Ymarfer Archwilio CIPFA ar gyfer Archwiliad Mewnol

15. Adolygwyd a diweddarwyd Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwiliad Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn 2006 i adlewyrchu newidiadau i'r maes sefydliadol y mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu ynddo. Mae'r Cod diwygiedig yn ailbwysleisio egwyddorion sefydledig y Bwrdd Arferion Archwilio ac yn nodi'r diffiniadau a'r egwyddorion (y safonau) sy'n pennu sut y dylai gwasanaeth Archwilio Mewnol proffesiynol weithredu mewn llywodraeth leol. Mae'r 11 o safonau fel a ganlyn:

- Cwmpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol
- Annibyniaeth
- Moeseg i archwilwyr mewnol
- Pwyllgorau Archwilio neu gyrff tebyg
- Cydberthnasau
- Staffio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus
- Strategaeth archwilio a chynllunio
- Cyflawni gwaith archwilio
- Gofal Proffesiynol Priodol
- Cyflwyno adroddiadau
- Perfformiad, ansawdd ac effeithiolrwydd

16. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cynnal hunanasesiad o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer CIPFA. Lle nad oes cydymffurfiaeth, bydd y Cyngor yn esbonio'r rhesymau i'r Pwyllgor Archwilio. Caiff yr hunanasesiad ei gynnal gan ddefnyddio rhestr wirio a ddarperir gan CIPFA ochr yn ochr â'r Cod Ymarfer.

17. O ran ei gydberthynas â Swyddfa Archwilio Cymru, y gwasanaeth Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am y swyddogaeth sylfaenol o archwilio, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol yn wrthrychol i gyfrannu at y nod o ddefnyddio adnoddau'n briodol, yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

18. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir i gleientiaid (gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru) yn unol â'r egwyddorion a'r safonau uchod.

19. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi y dylai'r Pennaeth Archwilio Mewnol geisio cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolydd enwebedig y gwasanaeth Archwilio Allanol er mwyn ymgynghori ar eu priod gynlluniau a'u cydgysylltu ac, yn benodol, i drafod sut y gellir teilwra gwaith i gyflawni cyfrifoldebau pob parti mewn meysydd o fudd cyffredin. Mae cyfarfodydd o'r fath yn gyfle i drafod materion o fudd cyffredin a helpu i feithrin dealltwriaeth y ddau barti o'r sefydliad.

# Amcan

20. Nod y ddogfen hon yw pennu ein dull o gydgysylltu'r gwaith archwilio y mae angen ei wneud i gyflawni amcanion y priod godau. Bydd yn sicrhau y caiff manteision llawn y trefniadau cydweithredu eu cyflawni mewn blynyddoedd i ddod.

# Dull Archwilio

21. Mae'r Protocol hwn wedi'i ddatblygu ar sail y Cod Ymarfer a thrafodaethau parhaus rhwng y gwasanaeth Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru.

22. Nodir y materion allweddol a ystyriwyd isod ac maent yn sail ar gyfer datblygu'r Protocol hwn:

- Cydweithredu ar asesiadau risg archwilio unigol a chyffredinol, a chynlluniau blynyddol a chylchol i bennu meysydd y bydd y ddau barti'n ymdrin â hwy, gan sicrhau dull 'cydgysylltiedig' o gynnal archwiliad y Cyngor ac osgoi dyblygu ymdrech ac adnoddau.
- Caiff cyfarfodydd rheolaidd eu trefnu i hwyluso cyfathrebu da. Defnyddir y rhain i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, trafod canfyddiadau archwilio a gwella trefniadau cynllunio ar y cyd.
- Cyfnewid gwybodaeth, gan gynnwys strwythurau, cyfrifoldebau a rolau staff mewn timau penodol, materion archwilio cyffredinol, cyngor technegol, adroddiadau archwilio, twyll ac afreoleidd-dra.

## Adolygiad o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol

23. Er mwyn i Swyddfa Archwilio Cymru gyflawni ei dyletswyddau statudol, mae angen iddi gynnal asesiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau rheolaeth fewnol effeithiol. Mae effeithiolrwydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn elfen bwysig o'r asesiad cyffredinol hwn. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn asesu effeithlonrwydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn flynyddol drwy adolygu gwaith a gwblhawyd yn erbyn y Cynllun Archwilio blynyddol.

24. Fel rhan o'r adolygiad, bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn asesu ansawdd sampl o aseiniadau archwilio a'r gwaith o'u rheoli.

## Asesiad o ansawdd y gwasanaeth Archwilio Allanol

25. Fel rhan o asesiad rheoli ansawdd Swyddfa Archwilio Cymru o gyflenwyr y gwasanaeth Archwilio Allanol, mae'n bosibl y bydd yn anfon holiadur i'r Cyngor o bryd i'w gilydd yn ceisio ei farn ar ansawdd y gwasanaeth Archwilio Allanol a ddarperir. Er bod fformat a dosbarthiad y rhain yn newid yn rheolaidd, lle y caiff ceisiadau eu cyflwyno i Swyddog Adran 151, bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cyfrannu at yr asesiad.

## Pennu camau ar gyfer cynllunio archwiliadau a gwaith archwilio

26. Er mwyn sicrhau trefniadau cydgysylltiedig, bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfarfod bob blwyddyn rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, cyn y flwyddyn ariannol newydd, i drafod yr ymdriniaeth arfaethedig, cyfrannu at y broses Archwilio Mewnol a llywio gwaith cynllunio Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff y Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ei lunio gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg, yn unol â Strategaeth Archwilio Mewnol tymor hwy'r Cyngor.
27. Er y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio dibynnu ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol lle y bo'n bosibl, cyfrifoldeb y Pennaeth Archwilio Mewnol yw'r cynllun Archwilio Mewnol. Lle y cynllunnir unrhyw waith ar y cyd rhwng y gwasanaethau Archwilio Mewnol ac Allanol, caiff ei gynnwys yng nghynlluniau'r ddau sefydliad.
28. Lle y caiff aseiniadau Archwilio Mewnol unigol eu cynnig mewn meysydd sy'n rhan o gynlluniau Swyddfa Archwilio Cymru, caiff cwmpas ac amseriad yr adolygiadau eu cymharu i osgoi dyblygu. Bydd hyn hefyd yn berthnasol os bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnig cwblhau rhywfaint o waith mewn maes sy'n rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol.

### Cyflwyno'r Protocol

29. Bob blwyddyn, mae Cynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru i'r Cyngor yn cymryd yn ganiataol y bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cyflawni gwaith y systemau ariannol sylfaenol ynghyd ag unrhyw feysydd eraill â blaenoriaeth a nodir yn ei Chynllun Archwilio. Pan nad yw hyn yn wir, bydd angen i Swyddfa Archwilio Cymru asesu'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ei gwaith a, lle bo angen, bydd yn cytuno ar newidiadau i'w Chynllun neu ffioedd archwilio ychwanegol. Os bydd materion o'r fath yn dod i'r amlwg, cânt eu trafod gyda'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Pennaeth Cyllid.

## Pwyllgor Archwilio

30. O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i'r pwyllgor archwilio oruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol awdurdod. Felly, cyflwynir y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd am gydymffurfiaeth â'r protocol hwn a'r gwaith o'i ddatblygu.
31. Dylid cyflwyno cynlluniau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r gwasanaeth Archwilio Allanol i'r Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn i'w cymeradwyo. Gall aelodau o'r Pwyllgor gwestiynu'r archwilwyr ynghylch y gwaith arfaethedig a'r meysydd sy'n rhan o'r ddau gynllun.
32. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau ei hadolygiad blynyddol o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio.

# Y ffordd ymlaen

33. Mae'r cytundeb hwn yn dangos ymrwymiad y ddau barti i wella'r broses archwilio yn barhaus a darparu gwasanaeth archwilio effeithiol i'r Cyngor.
34. Caiff y Protocol ei adolygu'n rheolaidd, gan adeiladu ar y gwersi a ddysgir a chan ymgorffori canllawiau newydd neu newidiadau yn y dull archwilio. Mae'n bosibl mai'r ffordd orau o adolygu'r Protocol hwn yw mewn cyfarfod blynyddol rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol. Yna gallwn drafod a chytuno ar faterion ymarferol sy'n ein galluogi i barhau i weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau bod cwmpas yr archwiliad mor effeithiol â phosibl i'r Cyngor ac yn osgoi dyblygu ymdrech. Yna gellir adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ein priod gynlluniau archwilio.
35. Caiff ein trefniadau cydweithredu eu cefnogi gan gyfarfodydd rheolaidd, gan gynnwys:
    - staff allweddol o Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cyfarfod yn ffurfiol bob chwarter;
    - cyfarfodydd ad hoc rhwng staff allweddol o Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol;
    - cyfarfod blynyddol i drafod yr asesiad risg a'r broses o gynllunio archwiliadau;
    - bob blwyddyn, yn rheolaidd, bydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi adborth ffurfiol ar ein gwaith i'r Pwyllgor Archwilio;
    - bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn darparu copïau o ffeiliau gwaith, dogfennaeth ac adroddiadau perthnasol i Swyddfa Archwilio Cymru;
    - bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu copïau o adroddiadau perthnasol neu grynodebau gweithredol i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol;

- bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi adborth i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ar faterion sy'n deillio o'i hadolygiad blynyddol.

36. Mae'r Cynllun Gweithredu atodedig yn nodi'r rôl y mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru yn ei chwarae o ran darparu archwiliadau effeithiol.

# Atodiad 1

## Cynllun Gweithredu

| Mater | Cam Gweithredu | Erbyn | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| **Cyfathrebu** | | | |
| Rhannu blaenoriaethau strategol. | Pennaeth Archwilio Mewnol/Rheolwr Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru i gyfarfod bob chwarter i drafod materion lefel uchel. | Chwarterol. | Pennaeth Archwilio Mewnol/Rheolwr Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru |
| Rhannu materion gweithredol. | Pennaeth Archwilio Mewnol/Prif Archwilwyr i gyfarfod ag arweinydd tîm Swyddfa Archwilio Cymru i drafod canlyniadau o astudiaethau penodol a'r goblygiadau i Swyddfa Archwilio Cymru. | Yn parhau. | Pennaeth Archwilio Mewnol/Prif Archwilwyr/arweinydd tîm Swyddfa Archwilio Cymru |
| Codi ymwybyddiaeth o waith a gynllunnir a chanfyddiadau o waith Swyddfa Archwilio Cymru. | Sicrhau bod cynlluniau ac adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gael pan gânt eu cwblhau. | Yn parhau. | Rheolwr Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru/Swyddog Arweiniol yr Asesiad Gwelliant |
| Codi ymwybyddiaeth o waith a gynllunnir a chanfyddiadau o waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol. | Rhannu'r Cynllun Archwilio a chrynhoi materion allweddol sy'n codi o waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol (Adroddiad Blynyddol).<br>Sicrhau bod yr holl allbynnau (adroddiadau/memoranda ac ati) ar gael (ar gais) o waith archwilio mewnol. | Yn parhau. | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Sicrhau bod y priod archwilwyr yn ymwybodol o hunaniaeth a strwythur y timau archwilio. | Cynnwys cyflwyniad i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol/Swyddfa Archwilio Cymru yn y priod drefniadau ar gyfer sefydlu staff parhaol. | Yn parhau. | Pennaeth Archwilio Mewnol/Rheolwr Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru |

| Mater | Cam Gweithredu | Erbyn | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod yr holl archwilwyr yn ymwybodol o'r dull cydweithredu. | Anfon copi o'r protocol cydweithredu at bob aelod o staff archwilio. | Yn parhau. | Pennaeth Archwilio Mewnol/Rheolwr Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru |
| Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol am faterion Archwilio Allanol pwysig. | Swyddfa Archwilio Cymru i godi materion lle y disgwylir goblygiadau sylweddol. | Yn parhau. | Rheolwr Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru/Swyddog Arweiniol yr Asesiad Gwelliant |
| Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gwasanaeth Archwilio Allanol am faterion Archwilio Mewnol pwysig. | Y gwasanaeth Archwilio Mewnol i godi materion lle y disgwylir goblygiadau sylweddol. | Yn parhau. | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Cynllunio** | | | |
| Ymdriniaeth gyffredinol y gwasanaeth Archwilio Mewnol i lywio asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r amgylchedd rheoli. | Cytuno ar y Cynllun Archwilio Mewnol i sicrhau ei fod yn cwmpasu'r holl ddyletswyddau archwilio sydd eu hangen fel sail i amgylchedd rheoli cadarn. | Chwefror/Mawrth ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. | Swyddfa Archwilio Cymru/y Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Ymdriniaeth gyffredinol y gwasanaeth Archwilio Mewnol i lywio asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r amgylchedd rheoli. | Cwblhau asesiad blynyddol o'r hyn y mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ymdrin ag ef i sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu cyflawni'n briodol. | Ebrill ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. | Rheolwr Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru |
| Lleihau achosion o ddyblygu hyd yr eithaf yng nghwmpas yr archwiliad. | Ymgynghori â'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth gwblhau'r Cynllun Archwilio Allanol i sicrhau yr ystyrir ei Gynllun yn llawn. | Chwefror/Mawrth. | Rheolwr Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru |

| Mater | Cam Gweithredu | Erbyn | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyno adroddiadau** | | | |
| Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am gwmpas a chanfyddiadau'r archwiliad yn rheolaidd. | Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i baratoi adroddiadau rheolaidd ar Faterion Rheolaeth a Llywodraethu i'r Pwyllgor Archwilio a'u trafod. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. | Chwarterol. | Pennaeth Archwilio Mewnol/Rheolwr Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru |
| **Llywodraethu** | | | |
| Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol i lywio adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. | Y Pennaeth Archwilio Mewnol i ddarparu Adroddiad Blynyddol ar yr amgylchedd rheoli yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin bob blwyddyn. | Mehefin. | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Ymwybyddiaeth o Dwyll** | | | |
| Rhoi gwybod i Swyddfa Archwilio Cymru am achosion mawr o dwyll. | Darperir y wybodaeth drwy gyfarfodydd cyswllt rheolaidd. | Yn parhau. | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Rhannu gwybodaeth am achosion mawr o dwyll. | Diweddariad ar gynnydd y Cyngor mewn perthynas â'r Fenter Gwrth-dwyll Genedlaethol mewn cyfarfod ar y cyd. | Yn parhau. | Rheolwr Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru |

| Mater | Cam Gweithredu | Erbyn | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| **Hawliadau grant** | | | |
| Sicrhau bod cwmpas yr archwiliad mor effeithiol â phosibl. | Nodi lle y gall gwaith y gwasanaeth Archwilio Mewnol helpu Swyddfa Archwilio Cymru i fodloni ei gofynion. | Chwefror/Mawrth. | Pennaeth Archwilio Mewnol/Prif Archwilwyr/arweinydd tîm Swyddfa Archwilio Cymru |
| Sicrhau bod cwmpas yr archwiliad mor effeithiol â phosibl. | Y gwasanaeth Archwilio Mewnol i gynnal adolygiadau o'r amgylchedd rheoli yn ystod cylch oes grantiau penodol i leihau nifer y profion ychwanegol y mae'n rhaid i'r gwasanaeth Archwilio Allanol eu cynnal. | Yn parhau. | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Sicrhau bod cwmpas yr archwiliad mor effeithiol â phosibl. | Sicrhau bod profion y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cyd-fynd â gofynion samplu a thystiolaeth angenrheidiol meysydd y cytunwyd arnynt. | Yn parhau. | Prif Archwilwyr y gwasanaeth Archwilio Mewnol/arweinydd tîm Swyddfa Archwilio Cymru |

## Tîm Swyddfa Archwilio Cymru

| Tîm yr Archwiliad Ariannol | Tîm Archwilio Perfformiad |
| --- | --- |
| Yr Archwilydd Penodedig - Anthony Barrett | Archwilydd Cyffredinol Cymru - Huw Vaughan Thomas |
| | Cyfarwyddwr Ymgysylltu – Alan Morris |
| Rheolwr yr Archwiliad - Amanda Hughes | Swyddog Arweiniol yr Asesiad Gwella – Huw Lloyd Jones |
| Arweinydd Tîm - Alan Hughes | Cydgysylltydd yr Asesiad Gwella – John Roberts |

## Tîm Rheoli Archwiliad Mewnol

| |
| --- |
| Pennaeth Archwilio Mewnol (*Uwch Reolwr Archwilio a Risg*) – Dewi Aeron Morgan |
| Rheolwr Archwilio Cynorthwyol – Luned Fôn Jones |
| Arweinydd Archwilio (Gofal) – Rodney Jones |
| Arweinydd Archwilio (Datblygu) – Kathryn Roberts |
| Arweinydd Archwilio (Amgylchedd) - Roland Thomas |

At ddibenion y protocol hwn, bydd y brif gydberthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol rhwng Tîm yr Archwiliad Ariannol a'r Pennaeth Archwilio Mewnol. Fodd bynnag, bydd aelodau o Dîm Archwilio Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru yn rhan o drafodaeth berthnasol gan ei bod yn ymwneud â gwaith perfformiad a gyflawnir o dan Fesurau Llywodraeth Leol.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Gwynedd Council

Shirehall Street

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1SH

Tel: 01766 771000

E-mail: archwiliomewnol@gwynedd.gov.uk

Website: www.gwynedd.gov.uk